**Grŵp Cyswllt Cymunedol Fferm Solar Porth Wen**
**4pm, Dydd Mercher 23 Mehefin 2022**
**Neuadd Bentref Cemaes**
**COFNODION**

**Aelodau**

| Enw | Rôl/sefydliad |
|---|---|
| Angharad Crump | Swyddog Cynllunio, Cyngor Sir Ynys Môn |
| Y Cyngh. Carys Davis | Cadeirydd, Cyngor Cymuned Llanbadrig |
| Y Cyngh. Julie Edwins | Cyngor Tref Amlwch |
| Y Cyngh. Aled Morris Jones | Ward Twrcelyn |
| Y Cyngh. Derek Owen | Cyngor Cymuned Llanbadrig |
| Y Cyngh. Llio Owen | Ward Talybolion |
| Y Cyngh. Gareth Winston Roberts | Cyngor Cymuned Amlwch |

**Presennol**

| Enw | Rôl/sefydliad |
|---|---|
| Gurpal Basra | Rheolwr Adeiladu |
| Kerry MacPhee | Swyddog Cyswllt Cymunedol, EDF Renewables |
| Gwynfor Owen | Cyfieithydd ar y pryd, Geiriau Gwyn |

## 1. Croeso

Croesawyd y grŵp gan Aled Morris Jones, y Cadeirydd.

## 2. Cyflwyniadau ac ymddiheuriadau

Cafwyd ymddiheuriad gan Myrddin Owens.

## 3. Cofnodion

Cafodd cofnodion y cyfarfod blaenorol eu cymeradwyo gan y grŵp.

## 4. Cylch gorchwyl

Mabwysiadodd y grŵp y cylch gorchwyl.

## 5. Y newyddion diweddaraf am y prosiect

Cyflwynodd GB y diweddariadau canlynol am y broses adeiladu:

- Dechreuodd Jennings baratoi ar 9 Mawrth. Maent yn dal ar y safle ac yn cwblhau Cam 1 erbyn yr wythnos nesaf. Mae trac o fynedfa'r safle i waelod y safle yn yr is-orsaf wedi'i adeiladu. Mae pont fetel wedi'i hadeiladu dros un groesfan ddŵr yn ogystal â phibell blastig diamedr mawr wedi'i gosod yn y cwrs dŵr a'i hôl-lenwi dros y bibell i ganiatáu adeiladu'r trac dros y cyrsiau dŵr.
- Mae Jennings bellach yn cael eu cyflogi gan Ethical & Grupotec fel eu contractwyr sifil.

- Mae'r archeolegydd yn dal ar y safle. Bydd yn bresenoldeb parhaol wrth i ni dynnu'r pridd ar gyfer y trac.
- Mae goleuadau traffig bellach wedi'u tynnu a mynedfa ceg y gloch wedi'i chwblhau gyda mynedfa a ffordd â thar newydd yn eu lle.
- Ethical Connections – ICP – y Prif Gontractwr ar gyfer gwaith ar is-orsafoedd. Mae gwaith adeiladu'r is-orsaf wedi dechrau gyda gwaelodion wedi'u cloddio, concrit wedi'i goedio a nawr caiff caeadau eu gosod ar gyfer slabiau a waliau. Mae gwaith gosod dur atgyfnerthu ar gyfer waliau a slabiau wedi dechrau. Bydd rhain yn eu tro yn cael eu concritio yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf.
- Grupotec – EPC – Mae'r Prif Gontractwr bellach ar y safle yn sefydlu cwrt y safle. Bydd y gwaith sydd i ddod yn cynnwys gosod traciau caregog ar draws y safle a torri ffosydd ceblau ar gyfer ceblau trydanol.

**6. Gronfa Budd Cymunedol (CBC)**

- Cadarnhaodd KMP y bydd y Gronfa Budd Cymunedol (CBC) yn destun RPI.
- Mae'r grŵp wedi gofyn am ddefnyddio rhan o'r CBC ar gyfer rhaglen ysgoloriaeth i gefnogi plant difreintiedig i fynd i goleg neu brifysgol ar gost o £2,000 y flwyddyn fesul myfyriwr. Hoffent archwilio'r posibilrwydd o 4x cyfraniad o £2,000 y flwyddyn o'r cronfeydd canlynol: Arian wedi'i glustnodi i ysgolion, Cyngor Tref Amlwch, Cyngor Cymuned Llanbadrig ac EDF Renewables.
- Gofynnodd y Cyngh. Owen i arian y CBC gael ei ystyried ar gyfer ysgol. Gwrthododd y grŵp y cais hwn a hoffent gadw at ardaloedd y cyngor a ddiffinnir fel rhai sy'n derbyn CBC.
- Byddai'r grŵp yn dal yn hoffi i'r arian ar gyfer ysgolion gael ei ddefnyddio i ddatblygu'r Gymraeg.

**7. Unrhyw Faterion Eraill**

- Gwnaed cais am ffair swyddi arall i bobl leol. Cadarnhaodd KMP fod cyfleoedd caffael a chyflogaeth yn cael eu gwireddu o ganlyniad i ffair swyddi mis Mawrth. Mae'r prosiect bellach mewn cyfnod lle'r oedd swyddi'n cael eu llenwi ac ni fyddai'r llinellau amser yn addas i wasanaethu ffeiriau swyddi yn y dyfodol.
- Gwnaed cais i drafod cyfleoedd i brentisiaid ac ymgysylltu â cholegau. KMP i adrodd yn ôl i'r grŵp.

**8. Camau Gweithredu**

- KMP i gadarnhau cyfraniad ychwanegol o £2,000 y flwyddyn gan EDF Renewables.
- KMP i gadarnhau nifer y bobl leol i'w cyflogi yn y tymor hir drwy'r fferm solar.
- KMP i roi diweddariad i'r grŵp ar unrhyw ddatblygiadau eraill yng ngogledd Cymru sydd ar y gweill.
- KMP i roi diweddariad ar gyfleoedd prentisiaid trwy Haen 1s.
- KMP i roi diweddariad ar allbwn o'r Brecwast Busnes a'r ffair gyrfaoedd.

**9. Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf**

Dydd Mercher 4-6pm yn gynnar ym mis Medi 2022 yn Neuadd Bentref Cemaes.